Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Digartrefedd: arferion gorau ar gyfer diwallu anghenion pobl ddigartref

Gweminar

Medi 24ain

# Agenda

## Gweminar
## Digartrefedd: arferion gorau ar gyfer diwallu anghenion pobl ddigartref
## Agenda – Dydd Mawrth 24 Medi, 13:00 – 14:30

| Amser | Eitem | Pwy |
|---|---|---|
| **13.00** | Croeso, cyflwyniad a gwybodaeth gyffredinol | Victoria Tice, Uwch Ymarferydd Iechyd Cyhoeddus, Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| **13.10** | Cynhwysiant Iechyd a Digartrefedd yng Nghymru | Jonathan Clode, Cydgysylltydd Prosiect Atal Digartrefedd, Shelter<br>Tina Williams, Ymchwilydd sy'n Gymheiriad |
| **13.40** | Iechyd Cynhwysiant ym Mae Abertawe | Janet Keauffling, Nyrs Glinigol Arbenigol wedi Ymddeol, Oedolion Digartref ac Agored i Niwed<br>Gofal Iechyd i Bobl Ddigartref, Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot |
| **14:00** | Sesiwn Holi ac Ateb | |
| **14:15** | Sylwadau terfynol a diweddglo | Victoria Tice, Uwch Ymarferydd Iechyd Cyhoeddus, Iechyd Cyhoeddus Cymru |

# Cynhwysiant Iechyd a Digartrefedd yng Nghymru

## CARTREF YW POPETH
## HOME IS EVERYTHING



Rydym yn bodoli i amddiffyn yr hawl i gael cartref diogel yng Nghymru ac i frwydro yn erbyn effaith aruthrol yr argyfwng tai ar bobl a chymdeithas.

Gwnawn hyn drwy ymgyrchoedd, cyngor a chefnogaeth – ac nid ydym fyth yn rhoi'r ffidil yn to.

Credwn mai'r cartref yw popeth.

# Deddfwriaeth Digartrefedd yng Nghymru

- Yng Nghymru, mae Deddf Tai Cymru 2014 yn diffinio pryd y bydd unigolyn yn ddigartref neu'n wynebu bygythiad o ddigartrefedd. Mae unigolyn yn ddigartref os, ynghyd ag unrhyw un sy'n byw gydag ef fel arfer:
- Nad oes ganddo lety yn y Deyrnas Unedig neu rywle arall, y mae ganddo hawl gyfreithiol i fyw ynddo.
- Mae ganddo lety ond ni all sicrhau mynediad iddo, neu mae'r llety yn strwythur, yn gerbyd neu'n gwch a addaswyd i rywun fyw ynddo y gellir ei symud (fel carafan neu dŷ ar gwch) ac nid oes unman y gellir ei leoli er mwyn darparu llety.

## Achosion digartrefedd

Mae nifer o resymau pam y gall unigolyn ddod yn ddigartref.

Mae Shelter Cymru yn diffinio'r ddau brif reswm dros ddigartrefedd fel a ganlyn:

- Problemau ym mywyd yr unigolyn – fel cyflyrau iechyd corfforol neu feddyliol, perthynas yn chwalu, neu gamddefnyddio cyffuriau ac alcohol;
- Problemau yn y system – fel y cynnydd mewn costau tai, y trap tlodi, a thoriadau i fudd-daliadau lles a gyflwynwyd gan y Llywodraeth.




- Roedd 153 o bobl yn cysgu y tu allan ym mis Mehefin 2024
- Roedd 11,307 o aelwydydd yn byw mewn llety dros dro ym mis Mehefin 2024
- Mae llawer mwy yn cysgu ar soffas, yn byw mewn hosteli neu’n bobl ddigartref gudd
- Mae hyd yn oed mwy ohonynt yn treulio o leiaf 50% o’u hincwm ar rent neu’n byw mewn tai anaddas

**Gall pobl sy'n profi digartrefedd hefyd fod yn delio â nifer o faterion eraill sydd wedi cyfrannu at eu sefyllfaoedd neu wedi eu gwaethygu.**

**Gall y rhain gynnwys -**

- Materion Iechyd Meddwl
- Gwaith Rhyw
- Camddefnyddio Sylweddau
- Dioddefwyr trais domestig
- Hanes o droseddu/Wedi gadael y carchar
- Gweithwyr mudol, ffoaduriaid a cheiswyr lloches
- Achosion o droi allan
- Achosion o gogio (*cuckooing)*
- Anhwylder Straen Wedi Trawma
- Problemau Ariannol neu Gyfreithiol
- Dioddefwyr caethwasiaeth modern

# EIN GWASANAETHAU

Rydym yn helpu miloedd o bobl sy'n cael trafferthion yn sgil tai gwael a digartrefedd bob blwyddyn, drwy ein gwasanaethau cyngor dros y ffôn, wyneb yn wyneb a digidol, cynrychiolaeth gyfreithiol a gwasanaethau cymorth arbenigol.

Gwe-sgwrs a Chyngor Ar-lein
Llinell Gymorth Fyw Shelter Cymru 08000  495 495
Cymorthfeydd Cyngor
Y Tîm Cyfreithiol

# Advice near you

Please choose your local area from the map below. Hover over the map and click on the marker to view the available surgeries in your area.

Find a surgery



+

-

1. Anglesey
2. Blaenau Gwent
3. Bridgend
4. Caerphilly
5. Cardiff
6. Carmarthenshire
7. Ceredigion
8. Conwy
9. Denbighshire
10. Flintshire
11. Gwynedd
12. Merthyr Tydfil
13. Monmouthshire
14. Neath Port Talbot
15. Newport
16. Pembrokeshire
17. North Powys
18. South Powys
19. Rhondda Cynon Taf
20. Swansea
21. Torfaen
22. Vale Of Glamorgan
23. Wrexham

## Tueddiadau gwaith achos Shelter Cymru Gorffennaf 2024 –

Digartrefedd – 39%

Chwilio am lety – 25%

Lleithder/dadfeilio – 10%

Ôl-ddyledion rhent – 9%

Meddygol/Iechyd – 5%

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae nifer y bobl sy'n byw mewn llety dros dro wedi cynyddu o chwe mil i fwy nag un mil ar ddeg.

Ciplun chwe mis o gleientiaid yr ydym wedi'u cefnogi sy'n byw mewn llety dros dro:

LLETY DROS DRO/HOSTEL – nododd 47% fod ganddynt broblemau iechyd corfforol, nododd 58% fod ganddynt broblemau iechyd meddyliol.

Gwely a brecwast/Gwesty – nododd 33% fod ganddynt broblemau iechyd corfforol, nododd 43% fod ganddynt broblemau iechyd meddyliol.

# Anghenion iechyd a chymorth ein poblogaeth ddigartref

- Oedran cyfartalog marwolaeth ymysg pobl sy'n profi digartrefedd yw 46 oed ar gyfer dynion a 42 oed ar gyfer menywod.

- Mae pobl sy'n byw ar y stryd bron i 17 gwaith yn fwy tebygol o ddioddef trais. Mae mwy nag un o bob tri o bobl sy'n cysgu allan wedi cael eu taro neu eu cicio'n fwriadol neu wedi profi rhyw fath arall o drais pan oeddent yn ddigartref.

- Mae pobl ddigartref dros naw gwaith yn fwy tebygol o ladd eu hunain na'r boblogaeth gyffredinol.

- Yn gyffredinol, mae'r digartref yn wynebu anhawster parhaus o ran cael mynediad at wasanaethau iechyd.

- Mae pobl eisiau cymorth mewn perthynas â'u hiechyd, tai a chyflogaeth i gyd mewn un man.

*Darparwyd yr ystadegau gan Crisis a Healthwatch**

# Gweithio ochr yn ochr â'r bobl sydd â phrofiad byw o ddigartrefedd

- Mae'r Prosiect Daliwch Sylw yn brosiect cyfranogi i ddefnyddwyr y gwasanaeth a arianwyd gan Lywodraeth Cymru i wella tai a gwasanaethau digartrefedd ledled Cymru i roi llais i bobl sydd wedi profi digartrefedd a thai gwael.
- Rydym yn gweithio ochr yn ochr ag ymchwilwyr sy'n gymheiriaid i ddarparu hyfforddiant a datblygu gweithdai.
- Mae eu profiadau a'u dealltwriaeth yn hanfodol o ran llywio ein hymchwil a'n hymgyrchoedd.

# Rhaglen Iechyd Cynhwysiant Iechyd Cyhoeddus Cymru

- Yn 2023, comisiynodd ICC Shelter Cymru i gynnal ymarfer mapio o wasanaethau digartrefedd ledled Cymru:
- Gwasanaethau Statudol Awdurdodau Lleol – Opsiynau/Atebion o ran Tai
- Gwasanaethau llety a chymorth wedi'u comisiynu
- Gwasanaethau Eraill – Cymorth allgymorth a gwirfoddol, galw heibio, elusennol ac ar sail ffydd

# Papur Gwyn Llywodraeth Cymru – Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru

- Roedd yn cynnwys gosod dyletswydd i nodi, cyfeirio a chydweithredu ar gyfres o gyrff perthnasol er mwyn atal digartrefedd.
- Byddai hyn cyflwyno dyletswydd gyfreithiol newydd ar draws y sector cyhoeddus i gydweithio lle mae unigolyn yn profi digartrefedd, neu mae perygl o ddigartrefedd wedi'i nodi.

Byddai hyn yn berthnasol i:

- Adrannau gwasanaethau cymdeithasol (o fewn yr un awdurdod lleol â'r adran ddigartrefedd berthnasol ac o awdurdodau gwahanol)
- Byrddau Iechyd Lleol gan gynnwys gofal sylfaenol
- Landlordiaid cymdeithasol cofrestredig.

# DIOLCH

jonathanc@sheltercymru.org.uk

# Iechyd Cynhwysiant ym Mae Abertawe

Jan Keauffling

Nyrs Glinigol Arbenigol wedi Ymddeol, Oedolion Digartref ac Agored i Niwed

# Tîm Abertawe

- Un Nyrs Glinigol Arbenigol Band 7 – 30 awr
- Un Nyrs Iechyd Meddwl Gofrestredig Band 6 – 18 awr
- Mae Cyngor Abertawe yn ariannu Nyrs Iechyd Meddwl Band 6 arall ar hyn o bryd – 18 awr. Ariennir y swydd ar sail flynyddol.
- Therapydd Galwedigaethol – Prosiect 360 Abertawe Castell-nedd Port Talbot wedi'i ariannu gan y Loteri
- Mae meddygon teulu practisau'n cefnogi'r rhaglen ac yn darparu gofal iechyd i unigolion yn ôl y galw
- Dull gweithredu tîm amlddisgyblaethol uwch ar gyfer darparu gofal iechyd

# Llwyth achosion

- 250+ o bobl ddigartref yn cysylltu ynghylch opsiynau tai bob mis
- Mae'r llwyth achosion blynyddol presennol yn 300+ - mae'n cynnwys cleifion cofrestredig a'r rhai sydd angen triniaeth ar unwaith
- Cleifion yr oedd angen triniaeth arnynt ar unwaith a gafodd driniaeth 2023/24 = 177
- 2022/23 – 127
- Anghenion Lluosog sy'n Gorgyffwrdd ac sydd heb eu Diwallu

# Anghenion Lluosog sy’n Gorgyffwrdd ac sydd Heb eu Diwallu

- Digartrefedd
- Dibyniaeth ar alcohol / defnyddio sylweddau / chwistrellu sylweddau
- Iechyd meddwl gwael / hanes o hunan-niwedio / ymgeisiau i ladd eu hunain
- Iechyd corfforol gwael
- Trawma niweidiol yn ystod plentyndod / trawma arall
- Anghenion emosiynol

# Castell-nedd Port Talbot

- Un Nyrs Glinigol Arbenigol Band 7 – 15 awr
- Ar hyn o bryd, nid oes Nyrs Iechyd Meddwl er bod y Nyrs Glinigol Arbenigol yn Nyrs Iechyd Meddwl
- Therapydd Galwedigaethol – Prosiect 360 Abertawe Castell-nedd Port Talbot wdi'i ariannu gan y Loteri
- Mae meddygon teulu practisau'n cefnogi'r rhaglen ac yn darparu gofal iechyd i unigolion yn ôl y galw
- Dull gweithredu tîm amlddisgyblaethol uwch ar gyfer darparu gofal iechyd

# Llwyth achosion

- 250+ o bobl ddigartref yn cysylltu ynghylch opsiynau tai bob mis
- Mae’r llwyth achosion blynyddol presennol yn 200+ - mae’n cynnwys cleifion cofrestredig a rhai sydd angen triniaeth ar unwaith
- Cleifion yr oedd angen triniaeth arnynt ar unwaith a gafodd driniaeth 2023/24 = 108 ers mis Chwefror 24.
- Anghenion Lluosog sy’n Gorgyffwrdd ac sydd heb eu Diwallu

# Gwasanaethau Allgymorth

- Cerbyd Lles The Wallich
- Pwynt Mynediad
- Asiantaethau Cyffuriau ac Alcohol
- Cyfnod Prawf
- Hosteli
- Ymweliadau cartref
- CRISIS Skylight







- Nelson Trust (Pobl sy'n Gadael y Carchar)
- Prosiect SWAN (Gweithwyr Rhyw)
- Caffis i'r digartref
- Tîm Ymyrraeth Cysgu Allan
- Immbulance
- Prosiect 360 Abertawe Castell-nedd Port Talbot

# Yr hyn a weithiodd yn dda

- Ymgysylltiad a chefnogaeth meddygon teulu sy’n llywio’r gwasanaeth
- Mae gwaith asiantaeth sefydledig yn galluogi’r gwasanaethau i ddod ynghyd a darparu gofal iechyd cyflawn sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn
- Mae cymorth swyddogion gweithredol Byrddau Iechyd yn alluogydd allweddol
- Mae gwaith allgymorth yn cefnogi unigolion i oresgyn rhwystrau i ymgysylltu â gofal iechyd

# Diolch am wrando!

E-bost cyswllt: Janet.Keauffling@wales.nhs.uk

# Sesiwn Holi ac Ateb

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Diolch

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales